# Ein Bro

Newyddion

Ysgol Bro Hyddgen

News










Hydref 2018 / Autumn 2018

# 2 Gair gan y Pennaeth / Letter from the Headteacher

Annwyl Riant/Ofalwr

Ar derfyn tymor prysur arall hoffwn ddiolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Derbynnwyd newyddion da yn ddiweddar gan ESTYN lle penderfynnwyd ein bod wedi gwneud cynnydd da ac ein bod yn yn cael dod oddi ar rhestr o ysgolion sy'n cael ei hadolygu.

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r staff am ei gwaith di flinio yn ystod y flwyddyn rydych i gyd yn haeddu seibiant.

Hoffwn hefyd longyfarch plant yr ysgol wnaeth gymryd rhan yng nghyngerdd Sinffonia Cymreig a hefyd ym mherfformiad Stictly'r Nadolig yn yr Ysgol Gynradd. Cadarnhaodd y ddwy noson hon bod talentau anhygoel yn yr ysgol gan y plant ac hefyd gan y staff wnaeth eu dysgu. Roedd safon perfformio yn y ddau gyngerdd yma'n wych.

Mae'r cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd yn symud yn ei blaen yn dda a gobeithir gweld y gwaith adeiladu'n dechrau yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Bydd yr ysgol yn ail agor i'r plant ar ddydd Mawrth Ionawr $8^{fed}$. Hoffwn ddymuno nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chi gyd.

Yr eiddoch yn gywir

**Dafydd M B Jones**
Pennaeth
Ysgol Bro Hyddgen

*Dear Parent / Carer*

*At the end of another busy term, I'd like to thank you for your continued support throughout the year.*

*We recently received very good news from ESTYN where they decided that we have made good progress and that we will be removed from their list of schools requiring an ESTYN review.*

*I like to thank all the staff for their tireless work during the last year, you all deserve to have a restful Christmas.*

*I would also like to congratulate the pupils that took part in the Welsh Sinfonia Concert and the production of Strictly Nadolig in the Primary School. These two nights confirmed to me that we have very talented children and staff gave up their time for rehearsals. The standard of performance in both these concerts was excellent.*

*The plans for the new school are moving along nicely and it is hoped that the building work will start early in the new year.*

*The school will re-open on Tuesday, January $8^{th}$ for the children*

*I hope you all have a Merry Christmas and a Happy New Year,*

*Yours faithfully*

***Dafydd M B Jones***

*Headteacher*

*Ysgol Bro Hyddgen*

# Dyddiadau Pwysig / Important Dates

| | |
|---|---|
| 21:12:18 | Diwrnod ola'r tymor/Last day of term NADOLIG LLAWEN/MERRY CHRISTMAS |
| 7:1:19 | Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd/ HMS day |
| 8:1:19 | Ysgol i bawb / School for all |
| 9:1:19 | Arholiad TGAU Saesneg Llên – Pawb yn Bl 10 a dosbarth Bl 11 EMC / English Lit GCSE Exam – All of Yr 10 and EMC's Yr 11 class |
| 14:1:19 | Arholiad TGAU Cymraeg Llên – Bl 11 dosbarth LJE / GCSE Welsh Lit exam – LJE's Year 11 Class. |
| 21:1:19 | Noson Rieni Bl 11 ac 13 / Yr 11 and 13 Parents evening<br>Mini Olympics BL 1 & 2 / Year 1 & 2 Mini Olympics |
| 4:2:19 | Noson Agored y Chweched Dosbarth 6.00 – 8.00 / Sixth Form Open Evening 6.00 – 8.00 |
| 20:02:19 | Eisteddfod Ddawns Cynradd / Primary Dance Eisteddfod |
| 25:2:19 – 1:3:19 | HANNER TYMOR / HALF TERM |
| 4:3:19 – 8:3:19 | Wythnos Ffug Arholiadau'r 6ed dosbarth/ 6th Form Moc Exam week |
| 11 & 12:3:19 | Nosweithiau Rhieni Cynradd / Primary Parents' Evening |
| 16:03:19 | Eisteddfod Gylch Cynradd / Primary Urdd Eisteddfod |
| 22:3:19 | Ffug Gyfweliadau Bl. 13 / Yr. 13 Mock Interviews |
| 1 - 3/04/19 | Year 5 & 6 Welsh First Language trip to Llangrannog |
| 3 - 5/04/19 | Year 5 & 6 Welsh Second Language trip to Llangrannog |
| 9:4:19 | Arholiad Llafar TGAU Ffrangeg Bl 11/ Yr 11 GCSE French Oral Exam |
| 15:4:19 – 26:4:19 | GWYLIAU PASG / EASTER HOLIDAYS |
| 29:4:19 | Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd/ HMS day |
| 30:4:19 | Ysgol i bawb / School for all |






# 4 Presenoldeb / Attendance

## Gwyliau / Absenoldeb yn Ystod y Tymor.

Rydym yn awyddus i weld pob plentyn yng Nghymru'n llwyddo. Gan hynny mae'n bwysig bod rhieni'n gwneud eu gorau glas i helpu disgyblion i ddod i'r ysgol am y 190 diwrnod llawn mewn blwyddyn academaidd, yn ôl Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Diwygiad) 2006.

O dan y Ddeddf Addysg (1996), cyfrifoldeb y rhiant neu'r gofalwr yw sicrhau bod eu mab neu eu merch yn mynychu'r ysgol. Mae presenoldeb rheolaidd yn hanfodol bwysig ac mae colli'r ysgol yn gallu cael effaith fawr ar gyflawniad dros flwyddyn fel mae'r grid isod yn ei ddangos:

Gobeithio y byddwch chi'n gallu cefnogi'r polisi hwn a threfnu gwyliau y tu allan i amser tymor. Mae'r ysgol ar gau am 175 diwrnod mewn blwyddyn os ydych chi'n cyfrif penwythnosau a gwyliau ysgol. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod eich plentyn yn llwyddo yn yr ysgol.

| | | |
|---|---|---|
| Presenoldeb 95-100% | Cyfle gorau o lwyddo | Mae'ch plentyn yn manteisio'n llawn ar bob cyfle dysgu. |
| Presenoldeb 90-95% | Mae'ch plentyn wedi colli o leiaf dwy wythnos o ddysgu | Boddhaol. Efallai y bydd rhaid i'ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny gyda gwaith. |
| Presenoldeb 85-90% | Mae'ch plentyn wedi colli o leiaf pedair wythnos o ddysgu | Gall eich plentyn fod mewn perygl o dangyflawni ac efallai y bydd rhaid i chi roi help i'ch plentyn i ddal i fyny gyda'u |
| Presenoldeb 80-85% | Mae'ch plentyn wedi colli pum wythnos a hanner o ddysgu | Mae presenoldeb gwael yn effeithio'n sylweddol ar ddysgu'ch plentyn. |
| Presenoldeb o dan 80% | Mae'ch plentyn wedi colli saith wythnos a hanner o ddysgu | Mae'ch plentyn yn colli allan ar addysg eang a chytbwys. Rydych chi mewn perygl o gael eich erlyn. |

Serch hyn, os bydd amgylchiadau'n codi sy'n golygu bod rhaid i chi gymryd gwyliau yn ystod y tymor, rydym yn gofyn i chi lenwi'r ffurflen ar ochr arall y llythyr hwn a'i hanfon yn ôl i'r ysgol at sylw'r pennaeth.

## Gwneud Cais am Wyliau

Os ydych chi'n dymuno mynd â'ch plentyn neu'ch plant ar wyliau yn ystod amser tymor rhaid i chi lenwi'r ffurflen **Cais am Wyliau** a geir o'r swyddfa, o leiaf 28 diwrnod cyn mynd i ffwrdd. Wedyn bydd y Pennaeth / Pennaeth Cynorthwyol yn ystyried eich cais.

Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn rhoi grym dewisol i benaethiaid i adael i deulu gymryd gwyliau yn ystod amser tymor lle mae rhieni'n gofyn caniatâd. Ar wahân i amgylchiadau arbennig, ni chaniateir mwy na deg diwrnod o wyliau. Yn yr ysgol hon byddwn yn ystyried yr agweddau canlynol cyn penderfynu caniatáu gwyliau yn ystod amser tymor.

- Ffigyrau presenoldeb ar gyfer y flwyddyn flaenorol. (Byddwn yn disgwyl i bresenoldeb fod yn uwch na 90 y cant.)
- Ymddygiad ac agwedd tuag at fywyd ysgol.
- Nad yw'r gwyliau'n torri ar draws cyfnodau dysgu pwysig rydym wedi tynnu'ch sylw atyn nhw (fel asesiadau ddiwedd y flwyddyn sy'n digwydd ym mis Mai bob blwyddyn).
- Eich bod yn llenwi'r ffurflen hon yn gywir a chyflwyno cais 28 diwrnod cyn y gwyliau.

Y Pennaeth yn unig sydd biau'r dewis i ganiatáu gwyliau fel y bydd yn gweld yn dda.

Byddwn yn gwneud cais i roi Hysbysiad Cosb Benodedig os byddwn yn cofnodi pum diwrnod neu fwy (deg sesiwn) o 'absenoldeb heb awdurdod' a bod presenoldeb o dan 90 y cant ar gyfer y flwyddyn academaidd hyd yn hyn.

Byddwn yn anfon bonyn caniatáu / gwrthod caniatáu atoch chi o fewn saith diwrnod ar ôl i ni dderbyn eich cais

# Presenoldeb / Attendance



## *Holidays / Absence during term time.*

*In Wales we want all of our pupils to achieve success, so it is important that parents do their best to support pupils in attending school for the full 190 days in an academic year, as stated in the Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2006.*

*Under the Education Act (1996), it is the responsibility of the parent or carer to ensure that their son/daughter attend school. Regular school attendance is vital and missing school can have a significant impact on achievement over a one year period as illustrated below:*

| | | |
|---|---|---|
| 95-100% | Best chance of success | Your child is taking full advantage of every learning opportunity. |
| 90-95% attendance | At least 2 weeks of learning missed | Satisfactory. Your child may have to spend time catching up with work. |
| 85-90% attendance | At least 4 weeks of learning missed | Your child may be at risk of underachieving and may need extra support from you to catch up with work. |
| 80-85% attendance | At least 5 ½ weeks of learning missed | Your child's poor attendance has a significant impact on learning. |
| Below 80% attendance | At least 7½ weeks of learning missed | Your child is missing out on a broad and balanced education. You are at risk of prosecution. |

*We hope that you can support this policy and arrange your holidays around the existing 175 days the schools are closed through weekends and school holidays and help us support your child in achieving success in school.*

*If, however, there are circumstances that mean you have to take a holiday during term time, we ask that you fill in the form on the reverse of this letter and return to school for the attention of the head* teacher.

## *Holiday Requests*

*If you wish to take your child/ren on a holiday during term time, a **Holiday Request** form must be completed at least 28 days before the date of the absence so that the request can be considered for authorisation.*

*The Pupil Registration (Wales) Regulations 2010 provide head teachers with a discretionary power to authorise leave for a family holiday during term time where parents seek permission. Save in exceptional circumstances, no more than 10 days leave should be granted for this purpose. The procedure at this school is that all the factors noted below will be taken into consideration before a decision is made as to whether to authorise any periods of holiday requested during term time.*

- *Attendance figures for the last year. (We would expect attendance to be above 90%.)*
- *Behaviour and attitude to school life.*
- *That the holiday does not impact on any key periods of learning identified and highlighted by the school (such as the end of year pupil assessments carried out during the month of May each year).*
- *That this form has been completed correctly and the request has been made 28 days before the holiday.*

*Please therefore remember that holidays can only be authorised at the Head Teacher's discretion.*

*It should also be noted that an application for a 'Fixed Penalty Notice' will be considered if there are 5 or more days (10 sessions) of 'unauthorised absence' recorded, in addition to the attendance level being below 90% for the school year to date.*

*An authorised / unauthorised slip will be sent back to you within 7 days of submitting this request.*

# 6 Strictly Dolig







**Strictly Dolig**

Uchafbwynt y tymor ar y Campws Cynradd oedd perfformiad y Cyfnod Sylfaen o'r sioe Nadolig: ***Strictly Dolig***. Cyflwyniad yw'r sioe o stori'r Geni ar ffurf y rhaglen deledu boblogaidd ***Strictly Come Dancing***. Yn cystadlu yn y sioe roedd pobl Nasareth yn dawnsio dawns llinell; Seren Bethlehem yn dawnsio disco; bugeiliaid a'u defaid yn dawnsio gwerin; angylion yn dawnsio *ballet*; pobl y llety yn dawnsio'r tango, a daeth y camelod a'r tri gŵr doeth hefyd i'r llwyfan i ddawnsio! Roedd tri beirniad unigryw yn cadw sgôr: yr asyn, gwraig y llety ac Agwstws Cesar. Yn ystod y perfformiad roedd y cyflwynwyr a'r rheolwyr llawr yn gweithio'n ddiwyd yn rheoli a cheisio chadw trefn ar y gynulleidfa. Yn codi'r canu roedd côr y Dosbarth Derbyn a chafwyd ymddangosiad arbennig gan Mair a Joseff. Perfformiad Fab-u-lous darlings!

***Foundation Phase Christmas Show:* Strictly 'Dolig**

*The highlight of the term on the Primary Campus was the presentation of the Nativity story in the style of the popular TV programme* Strictly Come Dancing. *During the show , the people of Nazareth performed a line dance; the Star of Bethlehem was seen disco dancing; the Shepherds and their sheep Morris dancing; the angels ballet dancing; innkeepers dancing the tango and the camels and the wise men also had their own special dance! The line-up of judges were as follows: the donkey, the Innkeeper's wife and Augustus Caesar – they certainly kept the audience on the edge of their seats. The hosts and floor managers had to work hard to manage the show and keep the audience under control. The reception class choir deserve a huge thank-you for singing their way through everything. Mary and Joseph made guest appearances. All in all: a Fab-u-lous show darlings!*

# Foundation Phase Christmas Show:

## Strictly 'Dolig







# Bore Coffi Macmillan 2018
# Macmillan Coffee Morning 2018





Cynhaliwyd bore coffi yn ystod y tymor gyda'r nod o godi arian i elusen Macmillan. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfranodd tuag at y digwyddiad. Diolch hefyd i'r Chweched Dosbarth am drefnu. Llwyddwyd i godi £148 a hynny at achos arbennig iawn.

*A coffee morning was held with the aim of raising money for the Macmillan Cancer Charity. A big thank you to all who contributed towards the event. Thank you also to the Sixth Form for organising it; we raised £148 for a fantastic cause!*

# Llun Ysgol Gyfan / Whole School Photo

Ar fore hyfryd o fis Hydref, ymunodd y Campws Cynradd gyda'r Campws Uwchradd ar y safle uwchradd er mwyn tynnu llun o'r ysgol gyfan. Hwn fydd y llun olaf o'r ysgol gyfan i'w dynnu ar y safle cyn i'r gwaith gychwyn ar yr adeilad newydd.

*On a fine October day a whole school photo was taken, the first as Ysgol Bro Hyddgen. The primary campus came to the secondary campus where the photo was taken. This will be the last whole school photo taken on the secondary campus site before work on the new school building starts.*



# Disgyblion Ysgol Bro Hyddgen yn Brysur yn Diddanu yn y Gymuned




Mae disgyblion Ysgol Bro Hyddgen wedi bod yn brysur yn diddanu yn y gymuned eleni eto er mwyn lledaenu neges y Nadolig a gwir ysbryd yr Ŵyl. Cafwyd perfformiadau hyfryd gan gantorion yr Ysgol yn y Plygain a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Pedr nos Sul 9 Rhagfyr. Bu'r disgyblion hefyd perfformio yng nghinio Nadolig y Pensiynwyr, yng Nghartref Dyfi ac yn Ysbyty Machynlleth. Nadolig llawen i bawb!

*Bro Hyddgen pupils have been busy performing this year again in order to spread the true spirit of Christmas and the message of goodwill to all. Singers from the school performed excellently in the Plygain held at Saint Peter's Church on Sunday 9 December. The pupils also performed at the Pensioners' Christmas dinner, at Cartref Dyfi and at Machynlleth Hospital. A very happy Christmas to all!*

## Siarter Hawliau Plant Campws Cynradd / Primary Campus Rights Charter

| Class | No. | Right |
|---|---|---|
| Onnen & Afallen | 31 | Children have a right to relax and play and to join in a wide range of activities. |
| Bedwen | 24 | Children have a right to clean water and good food; also to sound quality medical care and to see a doctor if they are ill. |
| Celynen | 15 | Children have a right to meet with friends and join groups and clubs |
| Masarnen | 12 | Children have a right to say what they think should happen and be listened to. |
| Derwen | 23 | Children have a right to specia care and support if they are disabled so that they can lead a full and independent life. |
| Helygen | 16 | Children have a right to privacy. |
| | 37 | Children have the right to be treated fairly if they break the law. |

| Class | No. | Right |
|---|---|---|
| Onnen & Afallen | 31 | Children have a right to relax and play and to join in a wide range of activities. |
| Bedwen | 24 | Children have a right to clean water and good food; also to sound quality medical care and to see a doctor if they are ill. |
| Celynen | 15 | Children have a right to meet with friends and join groups and clubs |
| Masarnen | 12 | Children have a right to say what they think should happen and be listened to. |
| Derwen | 23 | Children have a right to specia care and support if they are disabled so that they can lead a full and independent life. |
| Helygen | 16 | Children have a right to privacy. |
| | 37 | Children ahve the right to be treated fairly if they break the law. |

Hawliau Plant Cymru



# Llais y Disgybl / Pupil Voice



## Y Capteinaid a'r Llysgenhadon Chwaraeon



**Arweinwyr Llais y Disgybl / Pupils Voice Leaders**

Detholwyd y plant canlynol o Flwyddyn 6 yn Gapteiniaid Ysgol ac maen nhw eisoes wedi cyflawni gwaith da yn cyflwyno gwasanaethau Clod y Pennaeth.
*The following pupils from Year 6 are school captains and who have consistently done good work in presenting the school assembly.*

- Lottie Cook
- Amelia Garrod
- Dafydd Jenkins
- Loti Pilcher
- Cian Roberts
- Cadi Speake
- Ela Thomas
- Kia Wright

Cynhaliwyd etholiadau gan bob dosbarth ac etholwyd cynrychiolwyr i'r Cyngor Ysgol Cynradd fel a ganlyn:
*Each class held an election and voted representatives to the primary campus school council as follows:*

- Jessica Fletcher
- Sophie Jones
- Troy Jones
- Ella May Hughes
- Cadi Thomas
- Alice Cox
- Emily Heard
- Nansi Bell
- Elin Lloyd

**Llysgenhadon Chwaraeon / Sports Ambassadors**

Detholwyd y plant canlynol i fod yn Llysgenhadon Chwaraeon a chawsant ddiwrnod buddiol o hyfforddiant yn Ysgol Glantwymyn ddydd Mercher 26 Medi. Diolch yn fawr i Mr Jonathan Roberts, Swyddog Datblygu Chwaraeon yn y Gymuned, am gydlynu'r rhaglen werthfawr yma er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd chwareon a chadw'n iach ymysg plant. Cynhaliwyd gwasanaeth ysbrydoledig gan y Llysgenhadon Chwaraeon ddydd Gwener 5 Hydref.

*The following pupils were voted to be sports ambassadors and they had a day of training in Ysgol Glantwymyn Wednesday 26th September. Thank you to Mr Jonathan Roberts, Sports Development Officer in the Community for coordinating this valuable programme with the aim of promoting the importance of sports and keeping healthy for pupils. A special school assembly was held by the sports' ambassadors on the 5th October to promote this.*

- *Betsan Behnan*
- *Sienna Coleman*
- *Rhys Evans*
- *Jake Humphreys*
- *Zara Jones*
- *Leo Nicholas*
- *Finlay Thapa*
- *Nancy Tucker-Anthony*

# Llais y Disgybl / Pupil Voice



## Llysgenhadon Gwych y Comisiynydd Plant

## *The Children's Commisioner's Super Ambassadors*



Mae'r ysgol yn falch o gyhoeddi bod Eowyn Vaughan a Connor Farmery wedi cael eu dethol yn Llysgenhadon Gwych i'r Comisiynydd Plant, Sally Holland. Cyfrifoldeb y llysgenhadon yw hyrwyddo Hawliau'r Plentyn a sicrhau bod llais y disgybl yn cael gwrandawiad teg yn yr ysgol. Cwblhawyd holiadur gan blant CA2 llynedd a bydd y llysgenhadon yn edrych ar y canfyddiadau ac yn trafod gyda staff sut i wella'r ddarpariaeth lles ar gyfer disgyblion yr ysgol. Llynedd hefyd lluniwyd siarter ar gyfer y Campws Cynradd drwy ofyn i bob dosbarth ddethol un o'r hawliau ar gyfer eu hyrwyddo.

Gweler: https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/

*The school is very pleased to announce that Eowyn Vaughan & Connor Farmery have been selected as Super Ambassadors to the Children's Rights commissioner, Sally Holland. The ambassadors' responsibility will be to promote the Children's Rights and to ensure pupil voice has a fair hearing at the school. At the end of the summer term, every child in Years 3 – 6 completed the Children's Commissioner's questionnaire and the ambassadors are now tasked with drawing conclusions from the data and then discussing with staff how to enhance the provision for safeguarding and well-being at the school. Last year the Primary Campus formed a charter after asking every class to choose one of the Children's Rights to promote.*

*See: https://www.childcomwales.org.uk/uncrc-childrens-rights*

# Y Cyngor Ysgol / The School Council

## Llongyfarchiadau mawr i Ffion Davies ar gael ei hethol fel Prif Ddisgybl yr ysgol am eleni gydag Aur Bleddyn a Celt John yn ddirprwyon iddi hi.



Ers dechrau ein rôl fel prif ddisgyblion, cawsom nifer o gyfarfodydd cyngor ysgol er mwyn trafod yr hyn y gallwn ni ei wneud, fel myfyrwyr yr ysgol, i ddatblygu, gwella a hyrwyddo ein dysgu ac ansawdd bywyd ysgol. Trafodwyd llawer o bynciau; fforwm ieuenctid Powys, sefydlu Aelwyd yr Urdd i flynyddoedd 10 ac uwch, codi arian ar gyfer yr elusen Ambiwlans Awyr, trafod prosiect Stonewall, gwisg ysgol, defnydd ffonau symudol a derbyn cyflwyniad gan aelod o staff Parc Cenedlaethol Eryri.

Rydym ni fel prif ddisgyblion am gynllunio dros gyfnod y Nadolig, ddigwyddiadau i'w cynnal yn neuadd yr ysgol i godi arian ar gyfer yr elusen ambiwlans Awyr, ac efallai stondinau cacennau: byddai'n Faintais ychwanegol pe baem yn gallu codi arian ar gyfer offer newydd i'r ysgol er enghraifft yr adran TGCH.

Tymor yma, rydym wedi dechrau cynnal nosweithiau aelwyd yr Urdd yn yr ysgol ac yn awyddus i annog myfyrwyr o flwyddyn 10 ac uwch i fynychu oherwydd ei fod yn ffordd wych i fyfyrwyr hŷn ddod i adnabod ei gilydd a mwynhau y gweithgareddau a ddarperir gan yr Urdd. Hefyd, rydym yn gobeithio cynllunio taith i'r rinc iâ yn Aberystwyth fel rhan o'r sesiynau fel ffordd i gychwyn dod i nabod ein gilydd ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn mynychu.

Cafwyd cyflwyniad yn y gwasanaeth ysgol am brosiect Stonewall er mwyn codi ymwybyddiaeth am y gymuned LGBT ac yn ei wneud yn glir bod yr ysgol a'i staff yn gwbl gefnogol os oes gan unrhyw unigolyn unrhyw beth hoffent drafod.

Mewn ymateb i fater arall, nid yw pawb bob amser yn gwisgo'r wisg ysgol gywir, cawsom gyfarfod lle'r oeddem yn trafod pwysigrwydd gwisg ysgol a cytunwyd ei bod yn allweddol ein bod yn parhau i wisgo'r wisg ysgol gywir i sicrhau ein bod yn ymddangos yn smart ac yn gyfartal.

Yn olaf, trafodwyd y defnydd o ffôn symudol o fewn yr ysgol: credwn fod yr ysgol yn hael iawn i ganiatáu defnyddio ffonau symudol ar dir yr ysgol gan fod nifer o ysgolion yn yr ardal wedi penderfynu yn eu herbyn. Er mwyn parhau i ganiatáu ffonau symudol, dim ond y tu allan i'r gwersi y dylid defnyddio ffonau symudol oni bai bod athro / athrawes yn rhoi caniatâd i'w defnyddio at ddibenion gwaith. Mae hyn yn hanfodol i wella ein dysgu a chadw'r ysgol yn lle diogel, hapus.

Ffion Davies

# Y Cyngor Ysgol / The School Council

***Congratulations to Ffion Davies on being elected as the school's new Head Pupil with Aur Bleddyn and Celt John her deputies.***




*Since beginning our roles as head pupils, we have had several school council meetings in order to discuss what we can do, as students of the school, to develop, improve and advance our learning and quality of school life. We have discussed many topics; the Powys Youth Forum; starting an Aelwyd yr Urdd for Years 10 and above; raising money for the Air Ambulance charity; discussing the Stonewall project to promote awareness of their work supporting LGBT issues; school uniform; use of mobile phones and we have received a presentation from a member of staff about the Snowdonia National Park Authority and its work.*

*We as head pupils shall be planning over the Christmas period, events to be held in the school hall to raise money for the Air ambulance charity, and perhaps charity cake stalls during the year. We will also be aiming over forthcoming months to raise money for new equipment for the school, such as ICT equipment.*

*During this term, we have held Aelwyd evenings in the school and are eager to encourage students from Years 10 and above to be present as they're a brilliant way for older students in different years to get to know each other and enjoy activities provided by the Urdd. Also, we are aiming to plan a trip to the ice rink in Aberystwyth as part of one of these sessions as an icebreaker for anyone interested in attending.*

*Regarding the Stonewall Project, an assembly about the organisation has been presented to the whole school at the beginning of December in order to raise awareness about different aspects of the LGBT community and to make it clear that the school and its staff are completely supportive and always around if any individual has anything they'd like to discuss.*

*In response to the issue of some students not always wearing the correct uniform, we had a meeting in which we discussed the importance of school uniform and agreed that it is important to wear the correct uniform to ensure we all appear smart and equal in the school.*

*Finally was the topic of mobile phone use in school: we believe that the school is very generous to allow the use of mobile phones within school grounds as many schools in the area have decided against it. In order for it to remain this way, mobile phones should only be used outside of lessons unless a teacher gives permission to use them for work purposes. This is crucial to enhance our learning and keep the school as a safe, happy place. We appreciate that we're given guidance about the positive uses of mobile phones which will be beneficial for us later in life.*

Ffion Davies

# Y Cyngor Ysgol / The School Council

## Y Cyngor Ysgol
## *The School Council*



**Y Cyngor Ysgol Cynradd**

Yn dilyn cyfarfodydd o'r Cyngor Ysgol Cynradd cytunwyd ar y canlynol:

- Cysylltu Clod y Pennaeth i'r 4 Diben y Cwricwlwm:
    - Dysgwyr uchelgeisiol, galluog
    - Cyfranwyr mentrus, creadigol
    - Dinesyddion egwyddorol, gwybodus
    - Unigolion iach, hyderus
- Cynhyrchu sticeri i'w dosbarthu i'r unigolion sy'n ennill yr enwebiad
- Does dim angen Diwrnod Pêl-droed i'r Merched yn unig ar hyn o bryd ond cedwir yr opsiwn i ddarparu hynny eto yn agored
- Chwarae cerddoriaeth Gymraeg amser cinio fel rhan o weithgareddau'r **Siarter Iaith**
- Gwobrwyo 1 plentyn o bob dosbarth ar ddiwedd pob tymor am wneud ymdrech i ddefnyddio'r Gymraeg
- Cynnal diwrnod **Shwmae Su'mae** dydd Gwener 19 Hydref
- Ble i fynd ar y **Trac Dal i Fynd**:
    - The Great wall of China
    - **Cwpan Rygbi'r Byd yn Japan – penderfyniad y Cyngor**
    - Lapland
    - Paris
    - Botswana
    - Alicante, Spain
- Polisi Ymddygiad i'w arddangos ymhob un ystafell ddosbarth

**Primary School Council**

In meetings of the School Council held during the past term, the following were agreed:

- To link the Head Teacher's Award to the **4 Purposes of the Curriculum:**
    - Ambitious Capable Learners
    - Enterprising, creative contributors
    - Ethical, informed citizens
    - Healthy, confident individuals
- Also, to design stickers to be distributed to the individuals who are nominated
- There is no current need for a Ladies' Only Football Day but the option to designate a Ladies' Day should remain open
- As part of the **Welsh Language Charter** activities, to play Welsh music during lunch-time
- Also to reward 1 pupil from each class at the end of term for making the effort to speak Welsh
- To hold a **Shwmae Su'mae** Day on Friday 19 October
- Where to run on the **Trac Dal i Fynd** after considering the following options:
    - The Great wall of China
    - **The Rugby World Cup in Japan – council's decision**
    - Lapland
    - Paris
    - Botswana
    - Alicante, Spain
- Behaviour Policy to be displayed in every class

# Llwyddiant yn y Gala Nofio

## Bydd Finlay yn cystadlu ar lefel genedlaethol yng Ngaherdydd ym mis Ionawr



Mae'r ysgol yn falch o ymdrechion pawb yng ngala nofio'r rhanbarth gynhaliwyd ddydd Iau 22 Tachwedd, ac yn falch iawn cyhoeddi bod Finlay Thapa wedi ennill y ras nofio rhydd i fechgyn Bl 5 & 6; hefyd y ras nofio cymysg unigol i fechgyn Bl 5 & 6. Bydd Finlay yn cystadlu ar lefel genedlaethol yng Ngaherdydd ym mis Ionawr. Pob lwc i ti Finlay!

*The school is very proud of everyone's effort in the regional swimming gala held Thursday 22 November, and is particularly pleased to announce that Finlay Thapa won the freestyle race for Year 5 & 6 boys; also the individual mixed medley for Year 5 & 6 boys. Finlay will go on to compete at national level in Cardiff in January. All the best Finlay!*

## Y Cyfnod Sylfaen a'r Teigr Ddaeth i De / A Tiger Came for Tea!

Ddydd Llun 3 Rhagfyr teithiodd holl blant y Cyfnod Sylfaen i Ganolfan y Celfyddydau, Aberystwyth i wylio'r sioe ***The Tiger who Came to Tea.*** Addasiad yw'r sioe o lyfr yn dwyn yr un enw. Gwnaethpwyd cais llwyddiannus am grant ***Ewch i Weld*** oedd yn talu am gyfran helaeth o'r costau. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth hon a geir gan y Cyngor Celfyddydau er mwyn sicrhau bod disgyblion yr ysgol yn cael mynediad i brofiadau celfyddydol.




*On Monday 3 December, all the children from the Foundation Phase travelled to Aberystwyth Arts Centre to watch the show* **The Tiger Who Came to Tea**. *The show is an adaptation of the book of the same name. The cost of the trip were mainly covered by a* **Go and See** *grant. The school appreciates this support provided by the Arts Council, which ensures school pupils have valuable access to the arts and to theatre.*

# Croeso i Blant Newydd y Cyfnod Sylfaen
## *Welcome to New Pupils in the Foundation Phase*

### Cai



Rydw i'n mwynhau chwarae yn y tywod.

*I enjoy playing in the sand.*

### Freddie




Rydw i'n mwynhau darllen yn ein Cwtsh Clonc.

*I enjoy reading in our Cwtsh Clonc.*

### Jacob



Rydw i'n mwynhau peintio.

*I enjoy painting.*

### Kian



Rydw i'n hoffi adeiladu Popoids

*I like building Popoids .*

### Poppy



Rydw i'n hoffi gwisgo lan yn yr ardal chwarae rôl.

*I like dressing up in the role play*

### William



Rydw i'n hoffi adeiladu yn yr ardal adeiladu.

*I like building in the construction area.*

# Y Chweched Dosbarth Mwyaf Erioed!




Rydym fel ysgol yn falch iawn o allu croesawu cymaint o fyfyrwyr i Flwyddyn 12 eleni unwaith eto gyda nifer fawr yn ymuno â ni o ysgolion cyfagos. Mae 42 o fyfyrwyr wedi cychwyn ym mlwyddyn 12 ym mis Medi gyda 14 o'r rheini o sefydliadau tu hwnt i Fro Hyddgen megis Ysgol Bro Idris ac Ysgol Uwchradd Tywyn. Mae hyn felly yn rhoi cyfanswm o 85 yn y chweched – y ffigwr mwyaf erioed yn hanes yr ysgol.

Yn ôl Mr Llifon Ellis, pennaeth y chweched, "mae cael chweched dosbarth mor fawr yn wych o beth i'r ysgol a'r gymuned. Tystia'r niferoedd hyn, yn ogystal â chanlyniadau Lefel A clodwiw yr haf, i safon yr addysg sydd ar gael yma ym Mro Hyddgen. Llwyddodd bron pob disgybl a wnaeth gais i fynd i'r brifysgol y llynedd ennill lle mewn sefydliadau addysg uwch ar hyd a lled Prydain ac rydym yn dymuno'n dda iddynt oll."

*Ysgol Bro Hyddgen is pleased to announce that its Sixth Form is the largest it has ever been with 42 students joining year 12 this September. 14 of those students have joined us from other local schools such as Ysgol Bro Idris, Dolgellau and Ysgol Uwchradd Tywyn. This gives a total of 85 students in the sixth form.*

*Mr Llifon Ellis, Head of Sixth Form at Bro Hyddgen, said "having such a large sixth form is great for both the school and the community as a whole. These large numbers along with this summer's fantastic A Level results is proof of the high quality education that is provided here at Bro Hyddgen. Nearly every student who applied for a place at university received an offer from universities across Britain and we wish them well in their continued studies."*

# Siarter Iaith Cymraeg Iaith Gyntaf a Chymraeg Campus

Da cyhoeddi bod yr ysgol wedi ennill dwy Wobr Efydd y Siarter Iaith y tymor diwethaf: un am Gymraeg Ail Iaith a'r llall am Gymraeg Iaith Gyntaf (Cymraeg Campus). Mae'n braf iawn derbyn y gydnabyddaieth hon i'r gwaith beunyddiol a wneir yn yr ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg a gwerth dwyieithrwydd. Diolch i bawb am eu gwaith caled a diolch arbennig i'r Criw Cymraeg ac i'r Cyngor Ysgol Gynradd.

*The school is pleased to announce that last term the Primary campus won two bronze prizes for the Welsh Language Charter, one for Welsh first language and the other for Welsh second language. It is very gratifying to receive recognition of the hard work the school has done to promote the Welsh language and the value of multilingualism. TA huge thank you to everyone for their hard work and especially to the Welsh Language Crew and the Primary School Council.*

# Canlyniadau TGAU Ysgol Bro Hyddgen 2018



## Canlyniadau TGAU ardderchog eto eleni

- 5 A* i C : 81.1%
- 5 A* C yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg: 67.9%
- 5A*-A: 18.9%
- 29.9% o'r graddau yn A*-A




Mae Ysgol Bro Hyddgen wedi sicrhau canlyniadau TGAU rhagorol eto eleni, ac mae'r rhain yn adeiladu'n llwyddiannus ar ganlyniadau ardderchog y llynedd.

Enillodd 81.1% o'r disgyblion 5A*-C neu well. Roedd 29.9% o'r graddau'n A*/A neu gyfatebol – enillodd 18.9% o'r disgyblion o leiaf 5A*/A. Gwelwyd disgyblion oedd yn dilyn cyrsiau galwedigaethol hefyd yn cyflawni safon uchel iawn gyda chyfradd pasio o 100%. Mae pob adran wedi llwyddo i sicrhau llwyddiannau canmoladwy, ac mae hyn yn adlewyrchiad o waith caled yr holl staff addysgu.

Canlyniadau sy'n haeddu sylw arbennig yw rhai'r canlynol:

- Cerys Hickman: 9A*, 4A, 1B ac Anrhydedd mewn Mathemateg Ychwanegol
- Myfanwy Fenwick: 6A*4A,1B a 3C
- Emma Halls: 4A*, 6A, 3B a Phasio Mathemateg Ychwanegol
- Tomos Chick: 3A*, 5A, 3B, 1C ac Anrhydedd mewn Mathemateg Ychwanegol
- Alaw Jones: 2A*, 3A 4B a 4C
- Malen Aeron: 2A*, 2A, 5B, 4C
- Dafydd Jones: 1A*, 10A and 2B a Phasio Mathemateg Ychwanegol
- Alex Monnox: 1A*, 5A, 4B, 2C, 1 Anrhydedd mewn TGCh a Phasio Mathemateg Ychwanegol

Dywedodd Mr Dafydd Jones, y Pennaeth: "Dymunaf longyfarch y disgyblion i gyd ar eu llwyddiannau rhagorol, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r staff am eu gwaith caled, ac i'r rhieni am eu cefnogaeth parhaus. Fel ysgol, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod ni'n cynnig cwricwlwm cytbwys ynghyd a chefnogaeth sylweddol sy'n sicrhau amser i ddisgyblion ddysgu a datblygu'n bersonol ynghyd â'u paratoi tuag at eu harholiadau. Mae'r agwedd hon yn meithrin llwyddiant fel y gwelir o ganlyniadau Safon Uwch canmoladwy iawn. Edrychaf ymlaen i groesawu llawer o'n disgyblion ni'n ôl i'r chweched dosbarth flwyddyn nesaf, lle bydd nifer sylweddol o fyfyrwyr newydd yn ymuno â hwy o du hwnt i'n dalgylch. Pob dymuniad da hefyd i'r disgyblion hynny fydd yn mynd ymlaen i golegau addysg bellach ac i ddechrau yn y byd gwaith."

# GCSE Results at Ysgol Bro Hyddgen 2018



## Ysgol Bro Hyddgen makes pleasing progress on last year's successful GCSE results

- 5 A* to C grades: 81.1%
- 5 A* to C grades including Welsh/English and Maths: 67.9%
- Students achieving 5 A* to A grades: 18.9%
- 29.9% of the grades achieved were A*-A



*Ysgol Bro Hyddgen has yet again achieved an outstanding set of GCSE results; these results show progress on the excellent results achieved last year.*

*81.1% pupils achieved 5A*-C. 29.9% of the grades achieved were A*/A grades or equivalent – 18.9% of the pupils achieved at least 5A*/A. Students who have combined vocational qualifications with their GCSEs have also achieved to a very high standard, with a 100% pass rate. All departments have achieved overall significant successes: this is a reflection of the hard work of all the teaching staff.*

*Notable achievements include:*

- *Cerys Hickman: 9A*, 4A, 1B and Distinction in Additional Mathematics*
- *Myfanwy Fenwick: 6A*4A,1B and 3C*
- *Emma Halls: 4A*, 6A, 3B and Pass in Additional Mathematics*
- *Tomos Chick: 3A*, 5A, 3B, 1C and Distinction in Additional Mathematics*
- *Alaw Jones: 2A*, 3A 4B and 4C*
- *Malen Aeron: 2A*, 2A, 5B, 4C*
- *Dafydd Jones: 1A*, 10A and 2B and Pass in Additional Mathematics*
- *Alex Monnox: 1A*, 5A, 4B, 2C, 1 Distinction in ICT and Pass in Additional Mathematics*

*Headteacher, Mr Dafydd Jones said: "I wish to congratulate the students on their excellent achievements and I'm very grateful to the staff for their hard work, and the parents for their continued support. As a school, we concentrate on having a high quality and balanced curriculum alongside considerable support that gives students time to learn and personally develop not just to sit exams. This approach very much reaps its rewards when students go on to further study as shown by our very praiseworthy A Level results. I look forward to welcoming many of our students back to our sixth form next year, where, as usual, they'll be joined by several new students from beyond the school's catchment area".*

# Canlyniadau Lefel A 2018



**Canlyniadau Safon Uwch Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth**

- Roedd 67% o'r canlyniadau Safon Uwch yn A*- C
- Roedd 100% o'r myfyrwyr wedi ennill o leiaf 2A*- E neu gyfwerth



Mae myfyrwyr a staff Ysgol Bro Hyddgen wedi'u plesio unwaith eto eleni gyda'r canlyniadau Safon Uwch. Ymysg y pynciau enillodd 100% A*-C yn y Safon Uwch oedd Cymraeg, Ffrangeg, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, Cerddoriaeth, Daearyddiaeth ac Astudiaethau Busnes. Yn ogystal, gwelwyd 100% llwyddiant yn y pynciau galwedigaethol gyda 50% o'r canlyniadau'n Anrhydedd Seren.

Mae bron pob myfyriwr wedi ennill y graddau neu'r sgôr pwyntiau cyfatebol i allu sicrhau mynediad i'r brifysgol o'u dewis hwy – roedden nhw felly wedi cyrraedd eu targedau personol (a thargedau oedd yn aml yn heriol iawn). Enillodd nifer helaeth o'r myfyrwyr lefydd ar gyrsiau cystadleuol iawn, a hynny yn rhai o brifysgolion gorau'r wlad. Mae cymwysterau'r myfyrwyr wedi'u galluogi i ddechrau astudio cyrsiau gradd mewn pynciau amrywiol iawn gan gynnwys Fferyllyddiaeth, Perianneg Fecanyddol, Gwyddorau Meddygol, Mathemateg, Cerddoriaeth, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, Cymraeg, Hanes, Addysgu, Ffilm a Ffotograffiaeth, Gwyddorau Chwaraeon, a Theori Ffiseg.

Dywedodd Mr Dafydd Jones, y Pennaeth, ei fod yn awyddus iawn i gydnabod bod llwyddiant pob myfyriwr wedi digwydd, nid yn unig yn dilyn ei ymdrech ei hun, ond hefyd, yn sgil ymroddiad, cefnogaeth a gwaith caled staff addysgu'r ysgol. "Unwaith eto eleni, dyma ganlyniadau calonogol iawn sy'n adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad y myfyrwyr, rhieni a staff Ysgol Bro Hyddgen gan felly sicrhau bod y bobl ifanc hyn o fewn ein cymuned yn cael y cyfleoedd gorau posib i anelu am eu llwybrau gyrfa dewisol. Dymunaf longyfarch yr holl fyfyrwyr hyn, a hefyd dymunaf y gorau iddyn nhw fel maent yn symud i brifysgol neu i'r byd gwaith."

Ymysg y canlyniadau gorau eleni roedd:

Mared Jones – AAAB
Lleucu Morgan – AACC
Ania Parry – ABBB
Gruffydd Behnan - ABCC
Cerys Hughes – ABB
Jordan Hughes – ABB

Roedd perfformiadau canmoladwy iawn i'w gweld gan ddisgyblion blwyddyn 12 yn ogystal yn eu harholiadau Uwch gyfrannol, gan gynnwys:

Aur Bleddyn – AAB
Ffion Davies – AABC
Celt John – ABB
Owen Kimpton – AAB
Lewys Meredydd – AAA
Rebecca Owen - ABB

# A Level Results 2018



Celebrating A level success at Ysgol Bro Hyddgen

- 67% of the awarded grades are in the A*- C range at A levels.
- Overall, 100% of Year 13 students have achieved at least 2 A*- E grades or equivalent.



*Ysgol Bro Hyddgen staff and students have been very pleased with this year's Sixth Form results. Subjects achieving 100% A*-C at A levels include Welsh, French, Physical Education, Religious Education, Music, Geography and Business Studies. 100% success was seen in the vocational subjects with 50% of the results being Distinction Star.*

*Almost all students have obtained the grades or points score required for them to enter the university of their choice - attaining their personal, and often challenging targets. Many have achieved places on very competitive courses at some of the most respected universities. The students' qualifications have enabled them to start studying for degree courses in subjects as diverse as Pharmacology, Mechanical Engineering, Medical Sciences, Mathematics, Music, English and Creative Writing, Welsh, History, Education, Film and Photography, Sports and Exercise Science, and Theoretical Physics in universities across the country.*

*Headteacher, Mr Dafydd Jones, said that he's keen to acknowledge that each student's success has been brought about not just by their own hard work but also the commitment, support and high quality teaching of staff at the school. "Yet again this year, these are very pleasing results and reflect the hard work and commitment of the students, parents and Ysgol Bro Hyddgen's staff to ensure the young people within our community have the best possible life chances whilst aiming for their chosen career paths. I would like to congratulate all the students and wish them the very best as they move on to university or into employment."*

*Among the highest performers at A level were:*

*Mared Jones – AAAB*
*Lleucu Morgan – AACC*
*Ania Parry – ABBB*
*Gruffydd Behnan - ABCC*
*Cerys Hughes – ABB*
*Jordan Hughes – ABB*

*Commendable performances were also seen at AS level including:*

*Aur Bleddyn – AAB*
*Ffion Davies – AABC*
*Celt John – ABB*
*Owen Kimpton – AAB*
*Lewys Meredydd – AAA*
*Rebecca Owen - ABB*

# Ymweliad Gwyddor Meddygol Blwyddyn 12







*The school offer many opportunities for Year 6 pupils to visit the Secondary Campus throughout the year to help prepare them for Year 7. The Year 6 pupils will visit the secondary campus 9 times and have the opportunity to see a range of subjects; make new friends; get to know the school and the teachers.*

***The Normal School Day: 25/9/18***

*This was the first Year 6 transition day this year where pupils had a taste of a range of different subjects Year 7 pupils have on a day to day basis. It was a great opportunity for Year 6 to get to know pupils from different primary schools.*

***Science and Physical Education Day: 7/11/18***

*One of the most popular Year 6 Transition Day is the Science and PE day. It was a fun packed day where the Year 6 pupils carried out science experiments and developed physical skills. Above is a picture of Year 6 pupils enjoying their gymnastics lesson.*

***Transition Days to Come:***

- *Technology and ICT: 6/2/19*
- *Numeracy Project: 13/6/19*
- *The Transition Week: 1/7/19 – 5/7/19*

# Noson Agored Blwyddyn 5 a 6

**Braf oedd croesawu Blwyddyn 5 a 6 i'n Noson Agored !**

***It was nice to meet Year 5 and 6 during our Open Evening !***



Nos Lun y 1af o Hydref cynhaliwyd noson agored Blwyddyn 5 a 6 ar y Campws Uwchradd. Roedd y noson yn llwyddiannus dros ben gan ei fod yn gyfle arbennig i rieni a phlant Blwyddyn 5 a 6 ddod i weld yr ysgol, dysgu am lwyddiannau'r ysgol a chael blas ar yr hyn sydd gan yr ysgol i'w gynnig. Dyma lun o un o'r gweithgareddau gwyddoniaeth.

*On Monday the 1st of October Ysgol Bro Hyddgen held their annual Year 5 and 6 Open Evening. It was a very successful evening as it was a great opportunity for Year 5 and 6 pupils and parents to see the school, learn about our successes and have a taste of what the school has to offer. This is a picture of one of the science activities.*

# One Man and his Dog

Gwelwyd eitem arbennig o BBC ***Countryfile*** gydag Elgan Jarman, Blwyddyn 8 ar y rhaglen yn cystadlu dros Gymru yn y gystadleuaeth ***One Man and his Dog***. Da iawn Elgan!

*It was brilliant to see Elgan Jarman from Year 8 on the BBC* **Countryfile** programme, *competing in the* **One Man and his Dog** *competition. Best of luck Elgan!*



# Fy nhrip gwirfoddoli i Batagonia (Hanna Lewis)

## Taith Hanna i Patagonia gyda'r Urdd Gobaith Cymru

## *A report from Hanna on her trip to Patagonia with the Urdd*



Dros flwyddyn yn ôl mi gefais y gyfle i fynd am gyfweliad i wersyll yr Urdd Glanllyn er mwyn cesio am le ar daith Yr Urdd i Batagonia 2018. Roeddwn yn ffodus iawn i gael fy newis allan o dros 200 o bobl ifanc ar draws Cymru i fod yn un o'r 25 i fynychu'r daith. Roedd yn rhaid i mi wedyn gasglu £2,575 er mwyn talu am y daith, penderfynais gasglu'r arian yma drwy nifer o weithgareddau megis, stondin gacennau, Cyngerdd Doniau Dyfi, Raffl a drwy noddwyr. Hoffwn gymryd y cyfle yma i estyn diolch o waelod fy nghalon i bawb oedd wedi fy helpu mewn unrhyw ffordd, ni fyddai'r daith gwirfoddoli yma ddim wedi bod yn bosib heb gefnogaeth hael y gymuned.

Dechreuodd ein taith gyda siwrnai 5 awr i'r maes awyr yn Gatwick, ac wedyn taith 12 awr ar awyren i Fuenos Aires yna hediad fewnol i Drelew. Ar ôl cyrraedd Trelew roedd yn amser i ni setlo i mewn i'n llety newydd ym Maes Rhyddid. Roedd llawer o weithgareddau wedi'u trefnu i ni ar gyfer yr wythnos: megis mynd i Goleg Camwy, sef Coleg Cymraeg cyntaf y byd, i gwrdd a'r disgyblion, mynd i Ysgol Gynradd y Gaiman i wneud gweithgareddau gyda'r plant a chynnal cyngherddau ar gyfer bobl Cymraeg yr ardal. Roedd cael gweld y plant ifanc yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn agoriad llygad mawr i mi, roeddwn yn deall fod yna gymuned Gymraeg ym Mhatagonia ond nid oeddwn yn disgwyl fod y plant â chymaint o ddealltwriaeth o ddiwylliant Cymru a chymaint o gariad at yr iaith a'i hanes. Cafodd criw yr Urdd hefyd gyfle i fod yn feirniaid mewn cystadleuaeth 'Mae Hen Wlad fy Nhadau' yng Ngholeg Camwy, sef cystadleuaeth oedd yn gofyn i'r disgyblion gyflwyno'r anthem ar unrhyw ffordd oeddynt yn dymuno, drwy ganu, adrodd, chwarae offeryn, neu celf a chrefft. Cawsom hefyd y cyfle i ymweld â Dolavon, sef un o'r llefydd cyntaf i ffermwyr o Gymru setlo. Cawson ein tywys o amgylch y dre gan hen fenyw o'r enw Nivea oedd wedi byw yna drwy gydol ei hoes. Ar ôl trip o amgylch yr ardal hanesyddol yma roedd yn amser i ni greu cyngerdd ar gyfer y bobl leol, roedd yn hynod o emosiynol gweld hen bobl yr ardal oedd hefo gymaint o angerdd am yr Iaith Gymraeg, yn wir roedd yna lawer o ddagrau pan yn canu'r anthem genedlaethol. Ymlaen a ni yn hwyrach y noson hono i Gapel Bryn Crwn, un o nosweithau gorau'r holl daith. Roedd teulu Bryn Crwn wedi cynnal gwledd i ni yn y capel ac roedd pawb wedi mwynhau, roedd Hector, sef un o gymeriadau mwyaf adnabyddus yr ardal, yn wych ar y piano felly gafodd pawb noson llawn o ganu, crio, chwerthin a mwynhau. Un o'r gweithgareddau roeddwn wedi trefnu i blant Ysgol yr Hendre oedd ymweld â Phuerto Tombo, sef ardal ar lan y môr oedd yn gartref i filoedd o bengwiniaid! Roedd y plant wrth eu boddau yn gweld y pengwiniaid ac roedd clywed y plant yn siarad ymysg ei gilydd yn y Gymraeg yn arbennig, roedd y plant hefyd wedi bod yn dysgu'r gerdd 'Y Pengwin' fel syrpreis i ni, roedden nhw'n wych! Ar ôl i bawb weld y pengwiniaid dyma ni'n mynd i Borth Madryn, lle laniodd y Mimosa yn ôl yn 1865 yn cario'r setlwyr Cymraeg cyntaf, roedd yna amser i weld yr ogofau lle roedd y Cymry'n byw am fisoedd cyntaf eu amser yma. Hefyd roeddwn wedi canu can wrth fedd Catrin Roberts, un o'r bobl Cymraeg cyntaf i farw ar ôl glanoo yma, roedd cael gweld yn union lle bu'r Cymry yn byw gyntaf yn drist iawn, ogofau bychan oedd yna - ond roedden nhw'n dai i deuluoedd cyfan!

Roedd pawb wedi codi'n cynnar y bore wedyn er mwyn cerdded i'r dref i gael mynychu seremoni'r orsedd a chael cymysgu gyda phobl a phlant lleol. Roedd nifer o'r bobl oedd yn cymryd rhan yn wynebau cyfarwydd erbyn hyn, roedd pawb yn adnabod pawb yn y Gaiman a Threlew! Rhan arall gwych o'r daith oedd cymryd




rhan yn Eisteddfod Chabut. Roedd llawer oedd ar y daith wedi cymryd rhan mewn cystadlaethau unigol ac roedd pawb wedi gwneud yn dda iawn, cafodd Criw'r Urdd ail yn y gystadleuaeth côr cerdd dant, ac roedd pawb wedi mwynhau cymryd rhan mewn eisteddfod mor bwysig i ddiwylliant Gymraeg Patagonia. Eto roedd wynebau cyfarwydd iawn yn yr eisteddfod, Alejandro Jones, Bili o Glwb Rygbi'r Ddraig Goch, Maria ac Irupe sef dwy ffrind agos i mi o Goleg Camwy a llawer iawn mwy! Profiad arall bythgofiadwy. Roedd yn hynod o emosiynnol gorfod ffarwelio â ffrindiau mor dda er mwyn i ni ddechrau ar ein trip 9 awr i Esquel.

Erbyn cyrraedd Trevelin, Esquel roedd pawb wedi blino'n lan ond doedd hyn ddim yn mynd i stopio ni rhag mwynhau gweddill y daith. Y gweithgaredd cyntaf yma oedd mynd i rafftio dŵr gwyn, un o'r gweithgareddau roedd pawb wedi talu amdano yn ychwanegol gan fod Esquel mor adnabyddus am fod yn un o'r manau gorau yn y byd i'w wneud, efallai un o brofiadau llai mwynhaol y daith i mi ond ta waeth, roedd yn llawer o hwyl gweld pawb yn cwympo i mewn i'r dŵr rhewllyd! Roedd llawer o ddyddiau yn Esquel wedi eu treulio'n ymweld ag ysgolion a llefydd hanesyddol. Roeddwn hefyd yn cynnal cyngherddau yma ac roedd un yng Nghapel Seion, capel oedd yn eithaf newydd oedd wedi ei ail wneud yn ddiweddar. Cyfle arall gwych gafodd y criw oedd cael ymweld â chaeau'r popi's Esquel, roedd y golygfeydd yn wefreiddiol ac roedd yn gyfle i ni gael llawer o luniau da iawn fel atgofion o bythefnos fythgofiadwy ym Mhatagonia. Capel Bethel oedd un o'r capeli gafodd ei adeiladu yn 1910 yn agos iawn i'r ysgol Gymraeg newydd yn yr ardal 'Ysgol y Cwm'. Roedd yn mynd o nerth i nerth ac yn cael mwy o ddisgyblion yn ymuno bob blwyddyn. Roedd hyn yn mynd i ddangos faint o gariad oedd at yr iaith a faint o ofal oedd yn cael ei roi at ddyfodol yr iaith ym Mhatagonia. Y noson yno oedd ein noson olaf yn gwneud cyngerdd ym Mhatagonia ac roedd cymeriadau adnabyddus yr ardal wedi ymuno gyda ni fel Alejandro Jones, roeddwn yn ffan mawr ohono cyn mynd i Batagonia, ond ar ôl ei weld yn canu yn fyw a gyda chymaint o angerdd ac emosiwn roedd pawb eisiau iddo ddod yn ôl i Gymru hefo ni i ganu i ni o hyd! Cafodd pawb dreulio un o'n diwrnodau olaf yn Esquel yn y Parc Cenedlaethol oedd yn lle ardderchog. Roedd yr ysgol yma yn ceisio adfer y goedwig oedd wedi llosgi lawr ychydig flynyddoedd ynghynt ac roedd prosiectau fel hyn o amgylch yr ardal yn dangos faint o deimlad o gymuned oedd yma. Roedd ein noson olaf yn Esquel wedi ei dreulio gyda theulu'r Greens, lle gafodd pawb wledd ac asado ar eu fferm teuluol. Yn anffodus roedd yn rhaid i mi dreulio'r noson yn Ysbyty Esquel yn cael fy nhrin am Pneumonia a Broncitis, chwarae teg i Magarita Green am ddod i gyfieithu i mi! Doedd hyn heb wneud fy amser yna yn llai pleserus, roeddwn mor ddiolchgar o gael y cyfle i fod mewn gwlad mor anghygoel ac mi fydd y profiad yma yn aros efo fi am byth.

Ar y cyfan mae'r daith wedi rhoi agoriad llygad i mi ac i lawer o'r bobl fynychodd y daith, mae'r iaith Gymraeg yn cael ei hystyried fel 'iaith farw' bellach, ond mae gweld cymunedau newydd Cymraeg yn cael eu creu ar ochr arall y byd, a'r cariad am yr iaith Gymraeg yno yn dod o fflam o obaith i'r iaith. Os fod angerdd fel yno yn perthyn i ddisgynyddion Cymraeg ac i bobl ddi-Gymraeg ar ochr arall y byd mae'n rhaid i'r Cymry Cymraeg yma yng Nghymru ddal ati i ymladd am hawliau Cymraeg ac am ddyfodol a pharhad yr iaith a thraddodiadau Cymreig. Rydw i wrthi yn trefnu fy nhaith nesaf i'r wladfa ac yn gobeithio mynd yno eto flwyddyn nesaf! Os oes unrhyw un ohonoch wedi meddwl am ymweld â'r Wladfa neu yn bwriadu mynd yno, mi fyswn ym argymell i chi fynd amdani! Diolch eto i bawb sydd wedi gwneud y trip yma yn bosib!

# Cystadleuaeth Pêl droed yr Urdd







Bu timau pêl-droed cymysg a merched y Campws Cynradd yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth pêl-droed 7 Bob Ochr yr Urdd yn ystod mis Hydref.

Chwaraeodd y timau cymysg dair gêm yr un, gyda Thîm A yn curo Tîm B yr ysgol ac Ysgol Llanbrynmair ac fe gafwyd gêm gyfartal gyffrous iawn yn erbyn Ysgol Glantwymyn.

Colli dwy ac un gêm gyfartal yn erbyn Ysgol Llanbrynmair fu hanes Tim B, ond fe chwaraewyd y gemau gyda brwdfrydedd a chwarae teg.

Dim ond un gêm yn erbyn Merched Glantwymyn oedd gan y Tim Merched. Roedd hi'n gêm glos nes i Glantwymyn ddod a'u harf cudd ymlaen yn yr ail hanner……. Sgoriodd Glantwymyn dair gôl yn gyflym iawn ac fel yna y gorffennwyd hi.

Bydd tim A a thim merched yr ysgol yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf yn y Drenewydd yn y flwyddyn newydd.

*In October, the mixed and girls teams from the Primary Campus took part in the Urdd 7 a Side Football tournament. The mixed teams played three games each with Team A coming out on top after beating Ysgol Llanbrynmair and the school's Team B and drawing a very close game with Yugoslavia Glantwymyn.*

*Team B drew with Ysgol Llanbrynmair and lost the two remaining games. They played all three matches with a sense of fun and fair play.*

*The girls' team only had one match to play against Ysgol Glantwymyn. It was a close game until Glantwymyn brought on their secret weapon early in the second half, and went on to score three quick goals to finish the match 3-0.*

*The girls' team and team A will go on to represent the Bro Hyddgen cluster in the next round at Newtown FC in the New Year.*

# Top of the Bench





Zach Rose yn derbyn y tlws o'r 'Royal Society of Chemistry' ar ôl ennill y gystadleuaeth tyfu crisialau 'Top of the Bench' yng Ngregynog. Aelodau eraill y tîm oedd Emily Toon, Seren Overton Jones a Lily Shone.

*Zach Rose accepting the trophy from the Royal Society of Chemistry after winning the crystal growing competition in Top of the Bench at Gregynog. The other members of the team were Emily Toon, Seren Overton Jones and Lily Shone.*

# Yr Ŵyl Cerdd Dant / *Cerdd Dant Choir*

Am yr ail dro eleni roedd Côr Cerdd Dant ysgol Bro Hyddgen yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth genedlaethol, ac fe ddangoswyd eu perfformiadau ardderchog ar y teledu. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw ar eu llwyddiant a phob clod iddyn nhw am eu gwaith caled ac ar ddangos teyrngarwch ac ymroddiad wrth gynrychioli eu hysgol gyda balchder.

*For the second time this year, Ysgol Bro Hyddgen's Cerdd Dant Choir were successful in a national competition. Their excellent performances were shown on television for all to enjoy. Many congratulations on their success. They are praised for their exemplary hard work and commitment as they proudly represent their school.*



# Adran Daearyddiaeth



**Mae'r adran Daearyddiaeth wedi bod yn brysur iawn y tymor hwn yn mynychu ymweliad gwaith maes ac yn cwblhau portffolio o'u gwaith.**

***The Geography department have had a very busy term, participating in fieldwork visits and completing a portfolio of their work.***



Mae disgyblion TGAU Daearyddiaeth wedi bod yn brysur iawn y tymor hwn yn mynychu ymweliad gwaith maes ac yn cwblhau portffolio o'u gwaith.

Yn gyntaf, ar ddydd Mercher 19eg o Fedi aeth holl ddisgyblion TGAU Daearyddiaeth ar waith maes i Aberystwyth. Pwrpas yr ymweliad oedd ymchwilio i effeithiau datblygiad Tesco ac M&S ar stryd fawr y dref. Cafwyd diwrnod da, roedd y tywydd yn ffafriol, gydag un gawod o law, esgus i lawer o'r disgyblion gysgodi o'r glaw a mynd i KFC am ginio!

Rhannwyd y disgyblion yn ddau grŵp er mwyn cwblhau'r ail waith maes yn ffocysu ar yr Afon Ddyfi, byddai nifer yn dadlau mai dyma nodwedd ffisegol amlycaf yr ardal. Bu'r disgyblion yn dilyn taith yr afon o'r blaendir yng Nghwm Cywarch i'w haber yn Aberdyfi. Aeth y grŵp cyntaf allan i'r maes ar y 4ydd o Hydref, gyda'r tywydd yn ffafriol. Ond, ni fu'r ail grŵp mor ffodus ar y 11eg o Hydref, dyma grynodeb o'r ail ddiwrnod gwaith maes gan rai o'r disgyblion.

Ar ddydd Iau, Hydref 11 aethom fel dosbarth ar drip gwaith maes Daearyddiaeth i ymweld â gwahanol safleoedd ar hyd yr afon, er mwyn darganfod sut mae nodweddion yr afon yn newid wrth symud o'r tarddle tau'r aber. Y safle cyntaf oedd Cwm Cywarch ble roedd y tirwedd yn serth, uchel a chreigiog ofnadwy. Roedd yr afon yn y safle yma yn gul a bas iawn, ac yn rhedeg i lawr rhwng y tir creigiog, gan ffurfio ysbardunau pleth. Yn anffodus, dechreuodd fwrw glaw ac roedd rhai ofn cwympo ar y ffordd lawr!

Roedd tirwedd yr ail safle yn wahanol iawn i'r tirlun a thywydd garw yn y safle cyntaf. Roedd y mynyddoedd, a oedd y nodwedd amlycaf ar y tirlun yng Nghwm Cywarch nawr yn y cefndir. Gallwn weld gorlifdir o gwmpas yr afon, wrth i'r afon Cleifion ymuno gyda'r afon Ddyfi gan ffurfio cydlifiad. Roedd clogwyn afon hefyd yn nodwedd amlwg ar hyd glannau'r afon ger Mallwyd.

Symudom ni ymlaen i'r trydydd safle, Cwmllinau, yma gwelsom ystum. Yn ystod ein gwersi dosbarth, rydym wedi dysgu sut mae ystum yn ffurfio, da oedd gallu gweld y tirffurf go iawn. Gwelsom sut mae'r afon yn erydu'r tir ac yn dyddodi ei llwyth er mwyn creu'r tirffurf yma. Roedd tystiolaeth amlwg iawn fod yr afon yn erydu'r tir gan fod ffens un ffermwr yn cwympo dros ochr y clogwyn afon!

Pan gyrhaeddom Aberdyfi, ein pedwerydd safle roedd hi'n bwrw glaw yn ofnadwy, doedd dim modd gweld yr aber hyd yn oed! Ond, cawsom amser am hufen ia. Syndod oedd gweld grŵp o ddisgyblion ysgol yn canŵio yn y glaw. Diolch yn fawr iawn i Miss Iona Thomas a Mr Peter Kenny am ein cymryd ar daith ar hyd yr afon Ddyfi.

Gan Non, Daisy, Branwen a Gwenfair

Hoffai'r adran Ddaearyddiaeth ddiolch i'r gymdeithas rheini athrawon am gyfrannu at offer gwaith maes. Bydd yr offer newydd yma'n llawer o help wrth gwblhau gwaith maes yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer disgyblion TGAU a Lefel A. Mae'r offer eisoes wedi cael defnydd gan rai o ddisgyblion y chweched dosbarth sy'n cwblhau eu prosiectau unigol. Diolch i Megan am y llun o rai o'r offer mewn defnydd.

# Geography Department

*Pupils following the GCSE Geography course have been very busy this term, participating in fieldwork visits and completing a portfolio of their work.*

*To begin with, on Wednesday 19th of September, all the GCSE Geography pupils visited Aberystwyth. The purpose of this visit was to investigate any effects that the new Tesco and M&S development is having on the town's high street. It was a good day and the weather, on the whole, was favourable, with one shower a great excuse for many to shelter from the rain and have lunch in KFC!*

*The pupils were divided into two groups to complete the second fieldwork focusing on the Afon Ddyfi, many would argue that this is the main physical feature on the landscape in this area. The pupils followed the river's course from the upper course in Cwm Cywarch to the estuary in Aberdyfi. The first group went out to the field on the 4th of October, the weather was good. However, the second group weren't so lucky on the 11th of October, this is a summary of the second day written by some of the pupils.*

*On Thursday 11th of October our class went on a geography fieldtrip, visiting different sites along the river to see how the river changes from the source to the estuary. The first site was Cwm Cywarch, here the landscape was steep with rugged mountains and cliffs. The river at this site was very narrow and shallow, the river flowed down the rocky terrain forming interlocking spurs. Unfortunately, it stared to rain and some of us were sacred in case we fell on the way down!*

*The landscape at the second site was very different to the rugged mountains and nasty weather at the first site. The mountains, that were the main feature on the land space in Cwm Cywarch, were now in the background. We could now see a floodplain near the river, as the afon Cleifion and the afon Ddyfi join forming a confluence. A river cliff was also an apparent feature along the river bank near Mallwyd.*

*We moved onto the third site, Cwmllinau, here we saw a meander. During our lessons in class, we have learnt how a meander forms, it was great to see this landform for real. We saw how the river erodes the land and deposits it load to create this landform. There was clear evidence that the river was eroding the land because the farmer's fens had fallen over the cliff edge!*

*When we arrived at Aberdyfi, our forth site it was raining heavily, we couldn't even see the estuary! But we had time for some ice cream. It was quite a shock to see some school pupils canoeing in the rain. A big thank you to Miss Iona Thomas and Mr Peter Kenny for taking us on a journey along afon Ddyfi.*

*By Non, Daisy, Branwen and Gwenfair*

*The Geography department would like to thank the parent-teacher association for contributing towards the purchase of new fieldwork equipment. The new equipment will be a great help when completing fieldwork, especially for GCSE and A Level pupils. The new equipment has already been used by some of the sixth formers who are completing their individual projects. Thanks to Megan for the picture of some of the equipment in use.*



**Llun o rai o'r disgyblion tu allan i ddatblygiad newydd Tesco.**

***A picture of some of the pupils outside the new Tesco development.***



# Taith Urdd Patagonia 2019

**Yn ddiweddar, dw i wedi cael gwybod y byddaf yn un o'r 25 o bobl ifanc o Gymru fydd yn teithio i Batagonia ym mis Hydref 2019.**



Yn ddiweddar, dwi wedi darganfod y byddaf yn un o'r 25 o bobl ifanc o Gymru fydd yn teithio i Batagonia ym mis Hydref 2019.

Fel fy mod i'n gallu mynychu'r daith roedd rhaid llenwi ffurflen gais i ddechrau. Os oeddech chi'n llwyddiannus wedi hynny, roeddech chi'n mynychu diwrnod cyfweliadau lle roeddech chi'n cael gwahanol dasgau. Roedd rhaid cwblhau tasgau gan gydweithio ag eraill o ardaloedd gwahanol yng Ngogledd Cymru; gweithgareddau fel datrys problemau a chael eich rhoi mewn senario. Yn ychwanegol ar y diwrnod hwn, roeddech chi'n gorfod cael cyfweliad unigol gan ateb ambell gwestiwn. Ac ar ôl hynny, roedd rhaid i mi aros am y newyddion i weld os oeddwn i'n llwyddiannus neu beidio.

Ar y daith hon byddaf yn treulio cyfnod o bythefnos yng nghymunedau Cymreig y Wladfa, gan weithio gyda thrigolion o'r Wladfa a phobl ifanc eraill o Gymru. Byddaf yn gwneud gwahanol weithgareddau ar hyd y daith gan obeithio magu profiadau gwerthfawr ar y ffordd.

Mae hyn yn gyfle cyffrous iawn i mi, ond wrth gwrs mae profiadau fel hyn yn costio. Un o brif elfennau'r daith hon ydy gwirfoddoli, felly byddaf yn gorfod codi o leiaf £2,575 wrth gynnal gweithgareddau, digwyddiadau a derbyn cyfraniadau. Dros weddill y flwyddyn yma a'r flwyddyn nesaf byddaf yn cynnal ambell i weithgaredd a digwyddiad.

Os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth neu yn awyddus i wneud cyfraniad, cysylltwch â fi: 13galaw@brohyddgen.powys.sch.uk

——

*Recently, I have found out that I will be one of 25 young people from Wales who will be travelling to Patagonia in October 2019.*

*On this trip I will be spending a fortnight in the Welsh settlement communities in Patagonia working with residents from the communities and the other young people from Wales. I'll be doing different activities on the trip hoping to gain precious experiences on the way.*

*This is a very exciting opportunity for me, but of course experiences like these cost. One of the main elements of this trip is volunteering, therefore I'll have to raise at least £2,575 by arranging activities, events and accepting donations. Over the end of this year, and next year ,I will be holding occasional activities and events.*

If you would like more information or want to contribute, contact me on email: *13galaw@brohyddgen.powys.sch.uk*

# Ymweliad Mr Tim Penn

Thank you Mr Tim Penn for talking about global opportunity and citizenship with communication skills - whether you want to be a carpenter, an art dealer, a sportsman, an engineering, law, or a physiotherapist—with our students.



Further to my visit to school on Tuesday 13 July, I wish to thank the teachers very much for organising such an inclusive and positive Global Futures day with your pupils across the range of year groups.

All of the school's pupils were courteous, welcoming and fully engaged in the conversation. They also provided lots of interesting insight and input to the topics under focus. The pupils were all a great credit to the school.

I look forward to the opportunity of visiting again in the next academic year!

Tim Penn

# Cyfarfod â Kirsty Williams

Roedd cael y profiad o gyfarfod â Kirsty Williams CBE yn un da iawn, yn agoriad llygad i lawer o'r disgyblion o Ysgol Bro Hyddgen a Penweddig. Roedd cael y cyfle i leisio barn am sefyllfa amaethyddiaeth fel pwnc sy'n cael ei astudio o fewn ysgolion yn wych. Roedd llawer ohonom wedi sôn am sut nad oes digon o bwyslais ar amaethyddiaeth fel pwnc o oedran ifanc yn yr ysgol, ac roedd edrych ar ystadegau diweddar yn dangos y nifer helaeth o blant ifanc sydd ddim yn gwybod o ble mae'r bwyd ar eu plât yn dod; roedd hyn yn frawychus i'w glywed. Roeddwn yn ddiolchgar am y cyfle i gael siarad gyda rhywun mewn safle mor uchel yn y llywodraeth â Kirsty Williams - roedd hi'n barod i wrando ar bawb, gyda'r rhan fwyaf ohonom yn dod o gefndir amaethyddol sydd yn deall pwysigrwydd y diwydiant amaethyddol yn ein gwlad yn enwedig yn ystod y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd.

Hanna Eiddion

*Meeting Kirsty Williams CBE was a positive experience; it was an eye opener for the pupils from Ysgol Bro Hyddgen and Penweddig who are studying Agriculture. The experience of voicing our opinions about the agricultural situation at the moment was great! We also got to discuss the provision of Agriculture as a subject which we are lucky enough to have in our school. We discussed ways that we could improve the course and what she could do to help. We explained that there was not enough emphasis on young children learning and understanding about agriculture as a subject and in general. There are many children who do not even know where their food is actually coming from and how it is produced. This is very unfortunate for them as everyone should know what food they are eating and where it has come from. She was ready to listen to all of our comments and opinions and took them into account. And in the future we are hoping that we will see a change!*

*Maisy Sandells*

# Nadolig ym Mro Hyddgen









Eleni mae'r ysgol wedi cael **cystadleuaeth addurno dosbarth yn barod at y Nadolig.**
Mae'r ysgol yn hynod o ddiolchgar i'r CRhA am drefnu a hefyd i'r noddwyr:

- WILLIAM LLOYD WILLIAMS & SON
  www.wil-lloyd.co.uk/
- Plant - i
  www.plant-i.co.uk
- Glan yr Afon / Riverside - Pennal
  www.riversidehotel-pennal.co.uk/
- Mr News—Machynlleth
  www.facebook.com/Mrs.Newz/





# Nadolig ym Mro Hyddgen









This year the school has had a competition on which class can decorate the best classroom ready for Christmas. We are very thankful to the PTA for organising this event but also to the sponsors:

- WILLIAM LLOYD WILLIAMS & SON
  www.wil-lloyd.co.uk/
- Plant - i
  www.plant-i.co.uk
- Glan yr Afon / Riverside - Pennal
  www.riversidehotel-pennal.co.uk/
- Mr News—Machynlleth
  www.facebook.com/Mrs.Newz/





# Nadolig ym Mro Hyddgen








Eleni mae'r ysgol wedi cael cystadleuaeth addurno dosbarth yn barod at y Nadolig.

Mae'r ysgol yn hynod o ddiolchgar i'r CRhA am drefnu a hefyd i'r noddwyr:

- WILLIAM LLOYD WILLIAMS & SON
  www.wil-lloyd.co.uk/
- Plant - i
  www.plant-i.co.uk
- Glan yr Afon / Riverside - Pennal
  www.riversidehotel-pennal.co.uk/
- Mr News—Machynlleth
  www.facebook.com/Mrs.Newz/






# Nadolig ym Mro Hyddgen







This year the school has had a competition on which class can decorate the best classroom ready for Christmas. We are very thankful to the PTA for organising this event but also to the sponsors:

- WILLIAM LLOYD WILLIAMS & SON www.wil-lloyd.co.uk/
- Plant - i www.plant-i.co.uk
- Glan yr Afon / Riverside - Pennal www.riversidehotel-pennal.co.uk/
- Mr News—Machynlleth www.facebook.com/Mrs.Newz/





# Y Sinffonia Gymreig / Welsh Sinffonia










Eleni eto gwefreiddiwyd y gynulleidfa gan y cyfuniad o gerddorion Ysgol Bro Hyddgen ac aelodau'r Sinffonia Gymreig dan arweiniad yr arweinydd Rhyngwladol Mark Eager. Ers pum mlynedd, trwy gyfrwng prosiect Crescendo, mae deunaw aelod o'r gerddorfa wedi bod yn gweithio'n agos gyda chwaraewyr cerddorfaol ifanc a chorau'r ysgol.

Yn ogystal â pherfformiadau ardderchog gan gerddorfa a chôr yr ysgol, cafwyd perfformiadau ysbrydoledig gan yr unawdwyr canlynol: Cerys Hickman, Lewys Meredydd Siencyn, Malen Meredydd Aeron, Mari Elin Williams. Dafydd Behnan, Celt John, Ffion Duke, Tegan Roberts, a'r triawd Non Bleddyn, Mari Fychan a Branwen Roberts.

Mae ein diolch yn fawr i Mrs Llio James Pennaeth yr Adran Cerddoriaeth ac i'r athrawon offerynnol teithiol Mrs Sally Marshall a Mr Steffan Jones.

*Once again this year, the audience were thrilled by the fusion of Ysgol Bro Hyddgen musicians performing alongside eighteen members of the Welsh Sinfonia conducted by the international conductor Mark Eager as part of the Crescendo project.*

*As well as inspired performances by the school orchestra and choir, the following soloists were highly praised for their professional performances: Cerys Hickman, Lewys Meredydd Siencyn, Celt John, Tegan Roberts, Dafydd Behnan, Ffion Duke, Malen Meredydd Aeron, Mari Elin Williams, and the trio Non Bleddyn, Mari Fychan and Branwen Roberts.*

*Many thanks to Mrs Llio James, Head of Music nd to the peripatetic staff Mrs Sally Marshall & Mr Steffan Jones.*

# Ymweliad â Galeri MOMA






Mae dosbarthiadau Afallen a Derwen wedi bod yn astudio’r defnydd o liw yng ngwaith yr artisitiaid Ruth Jên a Helen Elliott. Ddydd Iau 6 Rhagfyr cafodd y ddau ddosbarth gyfle i werthfawrogi gwaith y ddwy artist yng ngaleri MOMA. Mae’r ysgol yn ddiolchgar iawn am y croeso a’r ddarpriaeth sydd i’w gael yn y galeri ac yn y Tabernacl.

*Derwen & Afallen classes have been studying the use of colour in the work of artists Ruth Jên & Helen Elliott. On Thursday 6 December, the two classes had a valuable opportunity to appreciate the work of the two local artists, which has been on display in the MOMA Gallery. The school is very grateful for the welcome and provision at the gallery and in the Tabernacl.*

# Hurricanes Machynlleth

Llongyfarchiadau i Rhys, Logan, Eurig, Jack a Finley sef tîm dan 8 oed Hurricanes Machynlleth, am ennill y Twrnament 5 bob ochr.

*Congratulations to Rhys, Logan, Eurig, Jack and Finley who are part of Hurricanes under 8 team for winning the 5 a side tournament.*



# Prynhawn Cymraeg





Ddydd Gwener 14 Rhagfyr, cafodd Prynhawn Cymraeg llwyddianus iawn ei drefnu gan y Criw Cymraeg. Cafodd disgyblion y ddwy ffrwd gyfle i gymysgu a chymeryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg Nadoligaidd.

*On Friday 14 December a successful* **Prynhawn Cymraeg** *(Welsh Afternoon) was held when pupils from the Welsh and English streams were put into mixed ability groups in order to take part in fun Welsh medium Christmas activities. As you can see from the pictures everyone had a fun time. This is what Nancy Tucker Anthony had to say about the afternoon: "Prynhawn Cymraeg was fun - I liked making the crackers. I enjoyed mixing with the Welsh children and practising my Welsh"*

# Cystadleuaeth Tynnu Llun Te Parti

Llongyfarchiadau i Libby Francis, Ella Bullen a Morgan Mason am ennill y gystadleuaeth tynnu llun te parti ar gyfer trigolion stad tai Tremyrallt. Trefnwyd y gystadleuaeth gan fudiad ***Rhentu Doeth Cymru.***

*Congratulations to Libby Francis, Ella Bullen & Morgan Mason for winning the competition, drawing a picture of a tea party for the residents of Tremyrallt estate, organised by* ***Rent Smart Wales.***



# Clwstwr Bro Hyddgen a Chaereinion Cluster

## Bwletin Dysgu ac Addysgu

## *Teaching and Learning Newsletter*

eirian.davies@erw.org.uk




Helo, fy enw i yw Eirian ac efallai bod rhai ohonnoch yn fy nghofio fel athrawes yn Ysgol Bro Hyddgen Campws Uwchradd. Ers tymor yr Haf, rwyf wedi bod allan ar Secondiad gyda ERW i gynorthwyo ysgolion yn eu paratoadau ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, 2022. Amser cyffrous iawn!

Y Tymor yma, rydw i wedi gwneud y canlynol:

- Ymweld a phob un o'r 15 ysgol sydd yn y Clwstwr o leiaf unwaith i drafod eu anghenion.
- Darparu hyfforddiant ar y meysydd Canlynol- **Y cwricwlwm newydd, safonau proffesiynol i athrawon, cyflwyno maes dysgu ac addysgu Iechyd a Lles. Yn ystod tymor y Gwanwyn byddaf hefyd yn cyflwyno gweddill y meysydd dysgu newydd sef Rhifedd a Mathemateg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, y Dyniaethau, Celfyddydau Mynegiannol ac Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.**
- **Am fwy o wybodaeth ar rhain ewch i: https://www.youtube.com/watch?v=9U0fsT0gH7U**
- **Trefnu ymweliadau i sawl ysgol – er enghraifft Ysgol Hafod Abertawe, gyda dros 20 o Athrawon yn mynychu'r diwrnod hyn ar draws y Clwstwr.**
- **Trefnu Hyfforddiant Gwyddoniaeth i athrawon y Clwstwr o dan Arweiniad Mr Stuart Jacob, ERW.**

*Hi, my name is Eirian and some of you may remember me as a Geography Teacher at Ysgol Bro Hyddgen, Secondary Campus. Since the summer term I have been lucky to secure a Secondment with ERW, assisting Schools in their preparation for Curriculum for Wales, which will be statutory in 2022. A very exciting time!*

*This term I have done the following:*

- *Visited each of the 15 Schools at least once to discuss their needs*
- *Training on each of the following:* ***The New Curriculum, professional teacher standards, presenting on the Health and Well-being area of Learning. During the Spring Term further updates will be given on the remaining AOLE's – Numeracy and mathematics, Science and Technology, the Humanities, Expressive Arts and Language, Literacy and Communication.***
- ***For more information on these visit: https://www.youtube.com/watch?v=9U0fsT0gH7U***
- ***Organising visits to several schools, including Ysgol Hafod, Swansea, with over 20 Teachers from the cluster area attending this day.***
- ***Science Training for Primary and Secondary teachers under the guidance of Mr Stuart Jacob, ERW Science Advisor.***

# Ymweliad Llundain





Yn ddiweddar cafodd dosbarthiadau TGAU a Safon Uwch Tecstiliau gyfle gwych i ymweld ag amgueddfa enwog y V & A, lle gwelsom y prif gasgliadau yn ogystal â'r arddangosfa **Ffasiwn Mewn Natur**. Aeth y Chweched Dosbarth ymlaen i ymweld â'r oriel genedlaethol, tra treuliodd y dosbarth TGAU tecstilau amser yn Covent Garden.

Aeth y diwrnod yn dda iawn, cafodd pawb gyfle i weld gwaith gwych gan artistiaid a dylunwyr byd enwog, ac i ennill ysbrydoliaeth ar gyfer yr holl brosiectau sy'n cael eu cynnal ar gyfer gwaith cwrs TGAU, UG a Safon Uwch.

Roedd yn ymweliad prysur ond llwyddiannus, a hoffem ddiolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu cefnogaeth; ni fyddai wedi bod yn bosib hebddynt.

*The Textiles GCSE & A level classes had the wonderful opportunity to visit the Victoria and Albert Museum in London where we saw the main collections as well as the exhibition **'Fashioned in Nature'**. The Sixth Form went on to visit the National Gallery, whilst the Textiles GCSE class spent time in Covent Garden.*

*The day went really well, Everyone had the opportunity to see some fantastic works by world famous artists and designers, and to gain inspiration for all the coursework projects taking place for GCSE, AS and A level.*

*It was a busy but successful visit, and we would like to extend our gratitude to the PTA for their subsidy; the visit would have not been possible without them.*

Jane, Sam a Catrin Manon

# Our Adventurous Trip to Castell Henllys

We went to Castell Henllys because we were going to learn about Celts. We got there by bus with Year three and four on Wednesday, 21 November 2018. Castell Henllys is near Cardigan.

First, the chief met us by the bus she looked cool. Secondly, we crossed the time machine bridge. After that, we climbed up the hill it was tiring. At the top of the hill we got scared by two warriors it was terrifying. Then, we arrived at the village and made bread in the chief's mansion. It was fun to crush the wheat grain to make flour, there was two different ways of making the flour crushing the grain on the saddle and with the spinning grinding stone. To make the bread we have to mix flour and water together and put it on the hot plate. If you don't like slime do not try this.

After lunch, Owen taught us how he made the meeting/eating house. It was made out of hazel, oak, mud/daub/cow poo, straw and reeds - it was disgusting.

After a while we wattled the hazel around the oak posts and pushed the daub into the hazel/wattle. Next, we went to the blacksmiths with my class. We went to the blacksmiths to see what things were made out of metal (iron). There were arrow heads, shields, swords, spears, hotplates, buckets and pans. The chief put a piece of metal in the fire. We tried to make the metal red so it would be more pliable. After, the metal slightly changed colour the chief put the metal in between some tweezers. I felt excited to try and bend the piece of metal (iron). I thought I was a mighty warrior. Nobody put even a tiny weeny dent in the piece of iron. Then, we had our faces painted to represent different gods.

Finally, we asked them questions I learnt that if you were very rich you would have butter eggs and maybe and went home.

It was a fun day and I enjoyed it.

Evan Davies

Year 4

Dosbarth Masarnen



## Dosbarth Derwen & Masarnen Trip to Castell Henllys



Ysgol Bro Hyddgen



Sioe Nadolig y Campws Cynradd



Gwaith Maes Adran Daearyddiaeth

Diolch yn fawr iawn i Mrs Manon Williams, Mrs Currie, a Mrs Haf Ap Robert am olygu'r rhifyn hwn o Ein Bro

*Thank you very much to* Mrs Manon Williams, Mrs Currie, a Mrs Haf Ap Robert *for editing this Edition of Ein Bro*